
LEGO

DC Universe

SUPER HEROES

Barod am antur!



Victoria Taylor


Addasiad Catrin Wyn Lewis

RILY

LEGO® Super Heroes – Archarwyr

Batman

Robin




Mae'r archarwyr yn gofalu am y byd.

Wyt ti eisiau cwrdd â'r archarwyr, a dod ar antur?

Superman

Wonder Woman




LEGO® Superman

Dyma Superman.

Archarwr yw Superman.

Mae Superman yn gofalu
am y Ddinas Fawr.

Wyt ti'n gweld Superman
yn hedfan dros y Ddinas Fawr?




LEGO® Wonder Woman

Archarwr yw Wonder Woman.

Mae Wonder Woman yn gryf iawn,
ac mae hi'n gyflym iawn hefyd.

Mae lasŵ gan Wonder Woman.

Mae hi'n defnyddio'r lasŵ
i ddal y bobl ddrwg.



Y robot

Dyma'r robot.


Mae Lex Luther yn eistedd yn y robot.

Ond pwy yw Lex Luther?

Dyn drwg yw e!

Mae Lex Luther a'i robot eisiau dinistrio'r Ddinas Fawr.

Mae Superman a Wonder Woman yn ymladd yn erbyn Lex a'r robot.



Bruce Wayne

Dyma Bruce Wayne.

Mae Bruce Wayne yn enwog iawn.

Mae llawer o arian gan Bruce Wayne.

Ond pwy yw Bruce Wayne, go iawn?




Mae Alffred yn helpu Bruce



siwt

Bruce Wayne yw Batman!



Batman

Mae Batman yn gofalu am bobl Dinas Gotham.

Mae gwisg arbennig gan Batman – y Batwisg. Does neb na dim yn gallu brifo Batman pan mae e'n gwisgo'r Batwisg.

